



Allwedd

-) Uned 5, Parc Busnes Triangl
- Safle Bysiau
- Gorsaf Drenau Pentre-bach
- Llwybr cerdded

Cyfeiriadau i: Uned 5, Parc Busnes Triangl, Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ

Yn y car – Wrth deithio tua'r de o Aberhonddu neu'r gogledd o Gaerdydd, gadewch yr A470 wrth y gylchfan â'r arwydd 'Pentre-bach' (yr A4060). Ewch ymlaen i'r gylchfan nesaf, gan gymryd y 3ydd troad (Y Fenni, yr A4060).

Wrth y gylchfan, cymerwch y troad cyntaf tuag at Parc Busnes Triangl. Bydd parc manwerthu ar eich chwith. Cymerwch yr ail droad i'r maes parcio y tu ôl i Uned 5, Parc Busnes Triangl. Mae lleoedd parcio ar gael ac mae'r fynedfa i Grwneriaid ym mhen pellaf yr adeilad.

Ar y trênn – Dewch oddi ar y trênn yng Ngorsaf Drenau Pentre-bach. O'r orsaf, ewch i lawr y ramp sy'n arwain at y llwybr troed wrth ochr yr A4054. Trowch i'r chwith gan ddilyn y llwybr troed wrth ochr y cae criced. Croeswch yr A4054, gan ddilyn y llwybr troed o amgylch y parc manwerthu cyfagos a pharhau ar hyd y llwybr troed nes i chi weld adeilad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (Uned 5, Parc Busnes Triangl). Mae mynediad i'r adeilad wrth y fynedfa gefn trwy'r maes parcio.

Ar y bws – Dewch oddi ar y bws ger yr arhosfan o'r enw 'Pentre-bach Hoovers Main Gate'. Dilynwch y llwybr troed tua'r de ar hyd y parc manwerthu cyfagos. Parhewch ar hyd y llwybr troed gan ddilyn y llwybr sydd wedi'i nodi uchod nes i chi gyrraedd y brif fynedfa.